YSGOL PENRHYN-COCH

Llongyfarchiadau cynnes i Andrew Turner a Dylan James ar gael eu dewis i chwarae i dîm pêl-droed dan 11 oed Aberystwyth. Dymunwn yn dda hefyd i Rhian Williams, Bethan Thomas, Sara Lathwood, Emily Maltman, James Read a Meilyr Howells yng Ngherddorfa Ceredigion. Y merched yn chwarae'r ffidil a'r ddau fachgen y trwmped.

Bu Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol ganol Hydref gyda phob dosbarth yn gwneud eu rhan drwy gyfrwng darlleniad, adroddiad a chân. Bydd casgliad y dydd yn mynd tuag at achos teilwng.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn ddiweddar pan etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 1991-92.